GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

# NHS Wales RSV Vaccination programme for older adults

## Visual aid for Healthcare Professionals

**This information is for health professionals delivering the NHS RSV vaccination programme for older adults across Wales**

## What's new?

On 1 September 2024, NHS Wales introduced a routine RSV vaccination programme for **older adults.** The RSV programme is based on JCVI advice[1].

## Which RSV Vaccine is available?

- Abrysvo®




### How to order

- Abrysvo® can be ordered from **Immform.**
- Remember to use the appropriate supply when ordering for **older adults.**

## Who will be offered an RSV vaccine, and when?

Adults turning 75 years should be invited for their vaccine within 12 weeks of their birthday. During the first year of the programme, a catch-up programme will run for those aged 75 to 79 years (until 31 August 2025). The table below shows which older adults are eligible for the RSV vaccine.

**From 1 September 2024 to 31 August 2025:**

| Age on 1 September 2024 | When can the RSV vaccine be administered? | Eligibility period |
|---|---|---|
| **74** | On or after their 75th birthday | Until 80th birthday |
| **75 - 78** | Between 1 September 2024 and 31 August 2025^^ | Until their 80th birthday |
| **79^** | Between 1 September 2024 and 31 August 2025^^ | Until 31 August 2025 |

^ Those turning 80 years of age between 2 September 2024 and 31 August 2025 will remain eligible up to and including 31 August 2025 (for the first year of the programme).

^^ There is operational flexibility to start from 1 September 2024, if there is capacity or vaccination is requested by eligible persons and can be accommodated.

**Can the vaccine be co-administered?**

| Vaccines commonly administered to older adults | Can they be administered together? | |
|---|---|---|
| **Abrysvo® and Shingrix®** | ✔ | *Ideally Abrysvo® should not be co-administered with flu or COVID-19 in older adults |
| **Abrysvo® and Pneumovax 23®** | ✔ | |
| **Abrysvo® and influenza vaccine** | ✔ * (don't routinely schedule) | |
| **Abrysvo® and COVID-19 vaccine** | ✔ * (don't routinely schedule) | |

* Giving Abrysvo® with the seasonal influenza vaccine may reduce the immune response to both the RSV and influenza (H3N2) components, which may increase the risk of severe respiratory disease in older adults. Additionally, co-administering the COVID-19 vaccine may diminish the immune response to the RSV vaccine. However, if it is thought that the individual is unlikely to return for their influenza or COVID-19 vaccine, they can be given at the same time.

### References

1. JCVI RSV immunisation programme: JCVI advice, 7 June 2023 (updated 11 September 2023)

2. Welsh Health Circular (2024) 032 Introduction of RSV vaccination programme 2024

## What else do I need to know?

**From 1 September 2024:**

- **Invite and offer vaccination** to adults who turn 75 years within 12 weeks of their birthday.

**Until 31 August 2025:**

- A **one-off campaign** will run, covering adults aged 75 to 79 years (+364 days).

**Are booster doses required?**

No. Currently, a single dose is required. Vaccine trials show the vaccine gives good protection for at least two years and is likely to last longer.

## Further information

- Public Health Wales – RSV vaccination information for healthcare professionals: **Respiratory syncytial virus (RSV) vaccination information for health professionals - Public Health Wales**
- Respiratory syncytial virus (RSV): **the Green Book, Chapter 27a - GOV UK (external site)**
- UKHSA RSV vaccination guidance or healthcare professionals: **Respiratory syncytial virus (RSV) programme: information for healthcare professionals - GOV.UK (external site)**
- Welsh Health Circular: **Introduction of RSV vaccination programme 2024 - WHC/2024/032 (external site)**
- Comprehensive immunisation schedules for Wales: **PHW Complete routine immunisation schedule for Wales**
- Video preparation of the Abrysvo® vaccine: **Preparation | Abrysvo®▼ (Respiratory Syncytial Virus Vaccine) | PfizerPro UK (external site)**
- Free resources to support vaccination clinics: **Health Information Resources - Public Health Wales**
- Guidance on Patient Group Directions: **Patient Group Directions (PGD) - Welsh Medicines Advice Service (external site)**
- Abrysvo® Summary of Product Characteristics (SmPC): **Abrysvo powder and solvent for solution for injection - SmPC - (emc) (external site)**
- **Yellow Card | Making medicines and medical devices safer (external site)**

Version 1 | November 2024 © Public Health Wales NHS Trust

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

**Mae Brechu yn achub bywydau**
**Vaccination saves lives**

# Rhaglen frechu RSV GIG Cymru ar gyfer oedolion hŷn

## Cymorth gweledol i Weithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol

**Mae'r wybodaeth hon ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n cyflwyno rhaglen frechu RSV y GIG ar gyfer oedolion hŷn ledled Cymru**

### Beth sy'n newydd?

Ar 1 Medi 2024, cyflwynodd GIG Cymru raglen frechu RSV reolaidd ar gyfer **oedolion hŷn.** Mae'r rhaglen RSV yn seiliedig ar gyngor gan y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI)[1].

### Pa Frechlyn RSV sydd ar gael?

- Abrysvo®

**Sut i archebu Abrysvo®**

- Gellir archebu Abrysvo® gan **Immform.**
- Cofiwch ddefnyddio'r cyflenwad priodol wrth archebu ar gyfer **oedolion hŷn.**




### Pwy fydd yn cael cynnig brechlyn RSV, a phryd?

Dylid gwahodd oedolion sy'n troi'n 75 oed i gael eu brechlyn o fewn 12 wythnos i'w pen-blwydd. Yn ystod blwyddyn gyntaf y rhaglen, bydd rhaglen dal i fyny yn rhedeg ar gyfer rhai rhwng 75 a 79 oed (tan 31 Awst 2025). Mae'r tabl isod yn dangos pa oedolion hŷn sy'n gymwys i gael y brechlyn RSV.

**Rhwng 1 Medi 2024 a 31 Awst 2025:**

| Oedran yr Unigolyn ar 1 Medi 2024 | Pryd y gellir rhoi'r brechlyn RSV? | Cyfnod cymhwystra |
|---|---|---|
| **74 oed** | Ar neu ar ôl ei ben-blwydd yn 75 oed | Hyd at ei ben-blwydd yn 80 oed |
| **75 - 78 oed** | Rhwng 1 Medi 2024 a 31 Awst 2025^^ | Hyd at ei ben-blwydd yn 80 oed |
| **79^** | Rhwng 1 Medi 2024 a 31 Awst 2025^^ | Hyd at 31 Awst 2025 |

^ Bydd rhai sy'n cael eu pen-blwydd yn 80 oed rhwng 2 Medi 2024 a 31 Awst 2025 yn parhau'n gymwys hyd at ac yn cynnwys 31 Awst 2025 (ar gyfer blwyddyn gyntaf y rhaglen).
^^ Mae hyblygrwydd gweithredol i ddechrau o 1 Medi 2024, os oes capasiti neu os bydd unigolyn cymwys yn gofyn am y brechlyn ac y gellir darparu ar ei gyfer.

**A ellir cyd-weinyddu'r brechlyn?**

| Brechlynnau a weinyddir yn gyffredin i oedolion hŷn | A ellir rhoi'r brechlynnau gyda'i gilydd? | |
|---|---|---|
| **Abrysvo® a Shingrix®** | ✔ | |
| **Abrysvo® a Pneumovax 23®** | ✔ | |
| **Abrysvo® a brechlyn y ffliw** | ✔ * (peidiwch â'u cyd-weinyddu fel mater o drefn) | *Yn ddelfrydol ni ddylai Abrysvo® gael ei gyd-weinyddu â'r brechlyn ffliw neu COVID-19^^ mewn oedolion hŷn |
| **Abrysvo® a brechlyn COVID-19** | ✔ * (peidiwch â'u cyd-weinyddu fel mater o drefn) | |

* Gallai rhoi'r brechlyn Abrysvo® gyda'r brechlyn ffliw tymhorol leihau'r ymateb imiwn i'r cydrannau RSV a'r ffliw (H3N2), a allai gynyddu'r risg o glefyd anadlol difrifol mewn oedolion hŷn. Yn ogystal, gallai cyd-weinyddu'r brechlyn COVID-19 leihau'r ymateb imiwn i'r brechlyn RSV. Fodd bynnag, os credir nad yw'r unigolyn yn debygol o ddychwelyd i gael ei frechlyn ffliw neu COVID-19, gellir eu rhoi ar yr un pryd.

**Cyfeiriadau**


1. Rhaglen imiwneiddio RSV JCVI: Cyngor JCVI, 7 Mehefin 2023 (diweddarwyd 11 Medi 2023)
2. Cylchlythyr Iechyd Cymru (2024) 032 Cyflwyno rhaglen frechu RSV 2024


### Beth arall ddylwn i ei wybod?

**O 1 Medi 2024:**

- **Gwahodd** oedolion sy'n troi'n 75 oed o fewn 12 wythnos i'w pen-blwydd **i gael eu brechu.**

**Hyd at 31 Awst 2025:**

- Bydd **ymgyrch frechu un tro yn unig** yn cael ei chynnal, yn cynnwys oedolion 75 i 79 oed (+364 diwrnod).

**A oes angen dosau atgyfnerthu?**

Nac oes. Un dos sydd ei angen ar hyn o bryd. Mae treialon o'r brechlyn wedi dangos bod y brechlyn yn rhoi amddiffyniad da am o leiaf dwy flynedd a'i fod yn debygol o bara'n hirach.

### Rhagor o wybodaeth

- Iechyd Cyhoeddus Cymru – Feirws Syncytiol Anadlol (RSV) - Gwybodaeth i weithwyr iechyd proffesiynol: **Feirws Syncytiol Anadlol (RSV) - Gwybodaeth i weithwyr iechyd proffesiynol - Iechyd Cyhoeddus Cymru**
- **RSV Green Book Chapter (27a) (safle allanol, Saesneg yn unig)**
- Canllawiau brechu RSV gan Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (UKHSA) i weithwyr gofal iechyd proffesiynol: **UKHSA Respiratory syncytial virus (RSV) programme: information for healthcare professionals (safle allanol, Saesneg yn unig)**
- Cylchlythyr Iechyd Cymru: **Cyflwyno rhaglen frechu RSV 2024 (WHC/2024/032) (safle allanol)**
- Amserlenni imiwneiddio cynhwysfawr ar gyfer Cymru: **Trefn imiwneiddio arferol gyflawn ar gyfer Cymru**
- Fideo yn dangos sut i baratoi'r brechlyn Abrysvo®: **Preparation | Abrysvo®▼ (Respiratory Syncytial Virus Vaccine) | PfizerPro UK (safle allanol, Saesneg yn unig)**
- Adnoddau ***am ddim*** i gefnogi clinigau brechu: **Adnoddau Gwybodaeth Iechyd - Iechyd Cyhoeddus Cymru**
- Canllawiau ar Gyfarwyddiadau Grwpiau Cleifion: **Templedi a chanllawiau Cyfeiriadau Grwpiau Cleifion (PGDs) - Gwasanaeth Cyngor ar Feddyginiaethau Cymru (wales.nhs.uk) (safle allanol)**
- Abrysvo® Crynodeb o Nodweddion y Cynnyrch (SmPC): **Abrysvo powder and solvent for solution for injection - SmPC - (emc) (safle allanol, Saesneg yn unig)**
- **Yellow Card | Making medicines and medical devices safer (safle allanol, Saesneg yn unig)**

Fersiwn 1 | Tachwedd 2024 © Ymddiriedolaeth y GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru